

Man Amlochrog: Rheoli coedwig Coed y Brenin

Roedd Coed y Brenin o flaen ei amser – dyma enghraifft o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a darparu nifer o fuddion lles cyn i hynny ddod yn ofyniad deddfwriaethol yng Nghymru.

Coed y Brenin oedd y cyntaf o'i fath - canolfan beicio mynydd pwrpasol gyda rhwydwaith o lwybrau pob tywydd cwbl arbennig wedi'u gosod â llaw trwy'r goedwig. Mae'r lle wedi datblygu dros y blynyddoedd ac erbyn hyn mae yno lwybrau i bawb, o deuluoedd i raswyr o'r radd flaenaf. Mae ymwelwyr yn heidio i'r lleoliad ac mae busnesau twristiaeth lleol yn ffynnu, gan helpu i gynnal cymunedau gwledig yr ardal. Yn ogystal â beicio mynydd, mae'n gyrchfan boblogaidd ar gyfer cerdded, rhedeg a gweithgareddau hamdden awyr agored eraill. Mae'n croesawu oddeutu 180,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

Mae'r safle yn cynnwys canolfan un pwrpas ar gyfer ymwelwyr ynghyd â chaffi, lle llogi beiciau, siop a chyfleusterau cynadledda. Pan agorodd yn 2006, roedd egwyddorion adeiladu cynaliadwy wrth galon y lle - system wresogi tanwydd pren, to estyll ac inswleiddiad naturiol. Yn 2013 cafodd y safle ei ymestyn, gan bron ddyblu o ran maint. Roedd yr estyniad yn cynnwys defnyddio pren meddal a dyfwyd yng Nghymru a thechneg adeiladu chwyldroadol a elwir yn Brettstapel.



Er hynny, nid ymwneud â hamdden yn unig y mae'r lle. Mae Coed y Brenin yn goedwig gynhyrchiol iawn, gyda chynhyrchiad pren blynyddol o 22,000m³ ar gyfartaledd (digon i adeiladu 12,570 o dai ffrâm pren). Mae hyn yn cefnogi cyflogaeth yn y sector coedwigaeth, bywoliaeth wledig a chymunedau gwledig. Mae'r coed yn y goedwig hefyd yn dal 10,000 tonnell o garbon deuocsid y flwyddyn, yr un effaith â chael gwared ar 2000 o geir oddi ar y ffyrdd.

Ac yna wedyn mae cadwraeth natur. Mae'r goedwig yn gartref i amrywiaeth anhygoel o blanhigion, adar ac anifeiliaid, gan gynnwys y cregyn gleision perlog gwarchoddedig a'r morgrugyn pren blewog gogleddol a deuddeg o rywogaethau dan warchodaeth Ewrop. Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Eden (ACA) sydd wedi'i lleoli o fewn y goedwig oedd yr unig leoliad yng Nghymru i'w chynnwys yn y prosiect *Pearls in Peril* fu'n gweithio i ddiogelu dyfodol poblogaethau cregyn gleision perlog dŵr croyw ym Mhrydain Fawr.

Mae mwy y gallem ei ddweud wrthy, ynghyd â'r ffaith fod dros 260 o nodweddion archeolegol yn y goedwig, gan gynnwys hen waith copr, cloddfa aur a ffwrnais haearn ganoloesol, ond credwn eich bod chi'n dechrau deall y neges. Mae Coed y Brenin yn fan amlochrog.

Ar Drywydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:

